

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	21 Medi 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Y Cyng Julian Thompson Hill Gary Williams – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd Steve Gadd – Pennaeth Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo
Awdur yr Adroddiad	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo, a'r Cynllun Ymateb i Dwyll

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldebau i ddiogelu pwrs y wlad o ddifrif ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus mae'n ei weinyddu. Mae'r Strategaeth a'r fframwaith hwn yn nodi ymrwymiad y Cyngor i atal, canfod a rhwystro twyll a llygredigaeth.
- 1.2. Rhoi gwybod i'r Cabinet am newidiadau i'r Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo, a'r Cynllun Ymateb i Dwyll wedi'i ddiwygio'n llawn.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae lleihau unrhyw golledion oherwydd twyll a llygredigaeth yn rhan hanfodol o sicrhau bod holl adnoddau'r cyngor yn cael eu defnyddio ar gyfer y dibenion priodol.
- 2.2. Mae'n bwysig bod strategaethau a chynlluniau gwrth-dwyll yn cael eu diweddarau er mwyn cefnogi ac arwain staff y Cyngor, sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, rhoi canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau a symleiddio prosesau mewnol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Cymeradwyo'r Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgwrwobrwyo a'r Cynllun Ymateb i Dwyll cysylltiedig, a darparu cymorth i sicrhau bod mesurau wedi'u cynnwys ar draws y sefydliad.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Mae'r Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgwrwobrwyo a'r Cynllun Ymateb i Dwyll yn ffurfio rhan o fframwaith gwrth-dwyll y Cyngor, casgliad o bolisiau a gweithdrefnau cydberthnasol sy'n cynnwys y cod ymddygiad, Rheoliadau Ariannol a'r Polisi Rhannu Pryderon. Mae hefyd yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau sydd wedi'u targedu'n benodol at atal twyll a llygredigaeth.
- 4.2. Pwrpas y Strategaeth a'r Cynllun Ymateb i Dwyll yw rhoi adnodd i reolwyr sicrhau cynnydd a thryloywder o ran gweithgareddau gwrth-dwyll. Mae wedi'i ddylunio i gynyddu cadernid y Cyngor yn erbyn twyll a dangos ei brosesau diogelu a stiwardiaeth o ran cyllid cyhoeddus.
- 4.3. Wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion arweiniol sydd wedi'u cynnwys yn "Fighting Fraud and Corruption Locally 2020" (FFCL2020), sef y strategaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth ar gyfer llywodraeth leol. Mae'n darparu glasbrint ar gyfer ymateb wedi'i gydlynw i dwyll a llygredigaeth a gyflawnir yn erbyn awdurdodau lleol gyda chefnogaeth y rhai ar y brig. Mae'n nodi'r gofyniad i fod â threfniadau cadarn a chymorth gweithredol ar waith er mwyn sicrhau bod mesurau gwrth-dwyll, llwgwrwobrwyo a llygredigaeth wedi'u cynnwys ar draws y sefydliad.
- 4.4. Mae'r Strategaeth yn ymwneud â gweithgarwch gweithredol er mwyn canfod ac ymchwilio i dwyll a llygredigaeth, ac mae hefyd yn nodi amcanion ar gyfer camau gweithredu rhagweithiol er mwyn rhwystro ac atal twyll a llygredigaeth trwy ddatblygu diwylliant gwrth-dwyll a llygredigaeth yn barhaus.
- 4.5. Mae'r Cynllun Ymateb i Dwyll wedi'i ddiwygio i adlewyrchu prosesau presennol a chryfhau trefniadau i sicrhau bod pawb perthnasol yn ymwneud ar bwyntiau allweddol a chynnwys rhagor o aliniad â pholisiau AD, a'r polisi disgyblu yn benodol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes angen penderfyniad. Bwriad gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Ymateb i Dwyll yw diogelu'r Cyngor yn erbyn colled trwy dwyll a llygredigaeth fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio ar gyfer y dibenion priodol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Bwriad gweithredu'r strategaeth gwrth-dwyll a'r cynllun ymateb yw diogelu'r Cyngor yn erbyn colled trwy dwyll a llygredigaeth.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les yn amlygu effaith gadarnhaol a niwtral; effaith gadarnhaol yn enwedig ym maes "Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang." Mae canolbwynt y strategaeth ar atal a chanfod twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo er mwyn diogelu cyllid cyhoeddus yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio ar gyfer y dibenion priodol. Mae gwaith i'w wneud i ymgysylltu ag aelodau, rheolwyr a gweithwyr yn ogystal â phartneriaid a chontractwyr i godi eu hymwybyddiaeth o'r strategaeth oherwydd elfen allweddol yw hyrwyddo'r diwylliant dim goddefgarwch trwy'r sefydliad. Caiff pob dogfen a deunydd/digwyddiadau codi ymwybyddiaeth neu ymgysylltu eu creu a'u cynnal yn ddwyieithog er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg lle bo'n bosibl.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Tîm Arwain Strategol wedi cytuno ac mae Undebau Llafur wedi cael gwybod. Cafodd ei drafod yn ffurfiol yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28 Gorffennaf 2021 a argymhellodd fod y Cabinet yn mabwysiadu'r polisi.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir dan adran 6 ni cheir goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, fel rhan o rôl Adran 151, mae'n rhan o gyfrifoldeb y rôl i helpu i sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu diogelu'n briodol er

mwyn eu cyfeirio at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r strategaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o helpu i gyflawni'r nod hwnnw.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Strategaeth a Chynllun Ymateb i Dwyll i liniaru a mynd i'r afael â'r risg o dwyll.

Mae'r strategaeth yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi camau gweithredu bwriedig i leihau'r risg o dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae'r pŵer i wneud y penderfyniad yn dod o dan adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972.